Panel Ymgynghorol yr Iaith Gymraeg

Welsh Language Advisory Panel

8 Gorffennaf 2024 am 2yp
Cyfarfod Aml-Leoliad

COFNODION A PHWYNTIAU GWEITHREDU

Yn bresennol:

Cyng. Glynog Davies	GD	Plaid Cymru (Cadeirydd)
Cyng. Peter Hughes Griffiths	PHG	Plaid Cymru
Cyng. Jean Lewis	JL	Plaid Cymru
Cyng. Sur Allen	SA	Annibynnol
Cyng. Tina Higgins	TH	Llafur
Cyng. Carys Jones	CJ	Plaid Cymru
Swyddogion		
Gwyneth Ayres	GE	Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth
Llinos Evans	LLE	Rheolwr Polisi a Chynnwys
Sioned Raymond	SR	Swyddog Polisi a Phartneriaeth Graddedig
Kelly Morris	KM	Swyddog Dysgu a Datblygu

Rhif	Testun a phwyntiau gweithredu	Yn gyfrifol
1.	Croeso ac Ymddiheuriadau Croesawodd y cadeirydd, Cynghorydd Glynog Davies bawb i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Paul Thomas, Cynghorydd Kevin Madge a Chynghorydd Andrew Davies.	
2.	Adroddiad ynghylch newidiadau i enwau wardiau a thai Yn anffodus, nid oedd neb o'r Adran Dai yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod. Paratowyd adroddiad o flaen llaw a gylchredwyd i'r aelodau. Derbyniwyd sylwadau gan Gynghorydd Carys Jones ynghylch pwerau gorfodaeth y cyngor pan fo datblygwr yn rhoi enw masnachu ar stad o dai newydd. Esboniodd Llinos Evans ei fod yn ddibynnol ar statws y datblygiad. Cytunwyd y byddai Cyng. Carys a Llinos yn cael sgwrs bellach cyn adrodd yn ôl i Rhodri Griffiths.	CJ/LLE

3.	Cyflwyniad Gweithredu'n Ddwyieithog – Kelly Morris Croesawodd Cynghorydd G.D Kelly Morris i'r cyfarfod i roi cyflwyniad ar Cymraeg i Gynghorwyr. Bwriad y cyflwyniad oedd esbonio'r cyfleoedd dysgu a gloywi Iaith sydd ar gael i gynghorwyr Cyngor Sir Gâr a sut gall y Cynghorwyr gadeirio cyfarfodydd yn ddwyieithog. Mae cyrsiau yn rhedeg o lefel 1-4. Esboniwyd fod llawer mwy o gyfleoedd gyda chyrsiau lefel 4 ag uwch. Mae'r cyrsiau yma yn allanol ac yn rhai ffurfiol ag anffurfiol: • Defnyddio Cymraeg Gwaith • Codi Hyder • Gwella'ch Cymraeg • Cynllun siarad Paratowyd ffurflen 'Forms' gan Kelly a fydd yn cael ei gylchredeg i'r aelodau er mwyn iddynt fynegi diddordeb am y cyrsiau Dysgu Cymraeg. Mae tiwtor wedi cael ei benodi a fydd yn dechrau ym mis Medi / Hydref er mwyn cynnal y gwersi. Yr hyn sy'n bositif am y cwrs yw: • Teilwra i'ch anghenion chi • Cynghorwyr yn cyd-ddysgu • Cymysgedd o wyneb yn wyneb a rhithiol • Codi hyder • Adnoddau a chymorth wrth Ddysgu Cymraeg Y gofynion ar gyfer y cyrsiau yw 80% presenoldeb ac ymrwymiad gan y Cynghorwyr. Derbyniwyd sylwadau gan Cynghorydd G.D lle nodwyd pa mor braf oedd gweld yr hyblygrwydd ar gyfer y dysgu a bod modd i'r holl Gynghorwyr wneud gyda'i gilydd. Ategodd Cynghorydd G.D ei fod yn syniad da rhannu'r ffurflen gyda'r Cynghorwyr i gyd o fewn y Cyngor er mwyn annog cymaint ohonynt ag sydd yn bosib dysgu'r iaith. Pwysleisiodd Cynghorydd CJ pa mor braf byddai rhoi'r hyder i Gynghorwyr ddefnyddio'r Iaith. Symudwyd ymlaen i ail ran y cyflwyniad lle symudwyd y ffocws at gadeirio'n Ddwyieithog wedi i Kelly fynychu sesiwn gyda'r Ganolfan Ddysgu. Y brif neges ddaeth o'r sesiwn yw'r angen normaleiddio'r Gymraeg. Y prif resymau nad yw pobl yn defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd yw: • Confensiynau defnydd iaith • Statws iaith • Disgwyliadau isel • Diffyg dealltwriaeth o ran cyfieithu Edrychwyd yn benodol ar rôl y cadeirydd. Mae yna nifer o bethau gall y cadeirydd ei wneud yn ddwyieithog megis croesawu pawb i'r cyfarfod, atgoffa pawb mai cyfarfod dwyieithog yw, annog pawb i ddefnyddio'r Gymraeg os yn bosib, adnoddau dwyieithog i nodi rhai.	

	Mae'n bwysig i'r cadeirydd gadeirio gymaint o'r cyfarfod drwy gyfrwng y Gymraeg. Er fe danlinellwyd ei fod yn rôl i bawb, nid yn unig y cadeirydd. Mae'n gyfle i bawb gwella ei sgiliau a chodi hyder i ddefnyddio Cymraeg. Drwy gadeirio'n ddwyieithog mae'r cadeirydd yn: - Dilysu a chydnabod y Gymraeg - Bod yn gynhwysol - Annog eraill i'w ddefnyddio - Hwyluso dealltwriaeth - Dangos sensitifrwydd tuag at ddiwylliant y ddwy iaith Mae'r ganolfan yn defnyddio'r cylch cadarnhaol isod er mwyn dangos y nod.  Derbyniwyd sylw gan Gynghorydd Jean Lewis o ran y papurau ar gyfer cyfarfodydd. Nodwyd nad yw'r agenda a dogfennau ar gael yn ddwyieithog bob tro. Esboniodd Gwyneth Ayres fod angen defnyddio rhyngwyneb Cymraeg ar Mod.gov er mwyn i'r dogfennau ymddangos yn Gymraeg yn gyntaf. Ategodd Llinos Evans bod dim modd uwchlwytho dogfennau dwyieithog ar Mod.gov a bod rhaid ei gyflwyno ar wahân. Cododd Cynghorydd PHG gwestiwn am gyfieithu peirianyddol. Esboniodd GA ei fod yn datblygu bob dydd, ond nid yw'n gywir 100%. Esboniwyd dylid danfon unrhyw adroddiadau neu bapurau i'r adran cyfieithu i wirio. Derbyniwyd cais gan Gynghorydd JL ar gyfer arddangos sut bod modd cael mynediad i'r rhyngwyneb Cymraeg ar Mod.gov a'r cyfieithu peirianyddol. Cytunwyd i ddanfon dolen i'r Cynghorwyr ar gyfieithu peirianyddol a sut bod modd ei ddefnyddio. Diolchodd Cynghorydd G.D i Kelly Morris am ei chyflwyniad trylwyr. Y gobaith yw bydd Cynghorwyr yn ymateb i'r daflen Forms.	
4.	Diweddariad Grant Llywodraeth Cymru Derbyniwyd diweddariad gan Gwyneth Ayres yn sgil dilyn grant gan Lywodraeth Cymru. Cynigir arian refeniw ychwanegol gwerth £1 miliwn ar gyfer 2024-25 ar gyfer y Gymraeg - sy'n gysylltiedig ag ymrwymiad CC rhif 36 ac yn rhan o gymorth i ddeall a	

pheilota ymyriadau mewn ymateb i ganlyniadau Cyfrifiad yr Iaith Gymraeg 2021 yn Sir Gaerfyrddin a'r cadarnleoedd ôl-ddiwydiannol yng Nghymoedd y Gorllewin. Gallai'r cyllid ychwanegol hwn gael ei roi i weithio mewn partneriaeth ag eraill i ddiogelu a thyfu'r iaith mewn cymunedau sy'n hanfodol i'w dyfodol.

Yn dilyn trafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a llythyr cynnig gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru nodir siâr Sir Gâr fel y ganlyn:

Grant	Dyraniad
Sir Gaerfyrddin (mae hanner y cyllid hwn yn ddibynnol ar ganlyniad astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer canolfan newydd yn ardal Dyffryn Aman). Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am reoli'r prosiect o'r astudiaeth hon (gyda mewnbwn gan y Cyngor ac nid yw ei gyllideb wedi'i chynnwys o fewn y dyraniad o £300,000). Byddai angen sicrhau gwariant erbyn diwedd mis Mawrth 2025.	**£295,100** (£300,000 minws tâl gweinyddol CLlLC £4,900)

Felly, gyda'r £150,000 wedi ei glustnodi tuag at ganlyniad astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer canolfan newydd yn ardal Dyffryn Aman a £4,900 o ffi weinyddol i CLlLC mae gan Sir Gâr £145,100 i'w glustnodi.

Mae ein cynigion am wariant yn Sir Gâr wedi eu datblygu ar sail gwneud cynnydd yn erbyn amcanion ein Strategaeth Hybu 2023-28 sy'n cymryd i ystyriaeth canlyniadau Cyfrifiad 2021, gofynion o ran Safonau'r Gymraeg a chyswllt gyda'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol trwy Gynllun Llesiant Sir Gâr 2023-28.

Gwelir crynodeb isod o brosiectau Sir Gâr.

Prosiectau Sir Gâr

1. Cynnig cefnogaeth ymarferol, arbenigol i ysgolion i symud ar hyd y continwwm ieithyddol, yn benodol yn yr ardaloedd isod, ac yn unol â'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg:
    a. Llanelli (cynradd ac uwchradd- Clwstwr Coedcae)
    b. Dyffryn Aman (cynradd ac uwchradd)
    c. Tâf/Myrddin

    £20,000

2. Cynnal astudiaeth dichonolrwydd i gynnal Gŵyl gerddoriaeth/roc Sir Gâr (i'w gynllunio erbyn Haf 2025)
    £12,500

3. Sesiynau cerddoriaeth Cymraeg / dwyieithog mewn tafarndai / neuaddau / lleoliadau cymunedol ar draws y sir – mewn cydweithrediad â'r mentrau iaith lleol
    £30,000

	4. Cefnogaeth arbenigol i gefnogi'r adran addysg wrth iddyn nhw weinyddu fwy fwy'n Gymraeg - cefnogaeth o ran newid arferion a chamau ymarferol i hwyluso defnyddio mwy o'r Gymraeg yn eu gwaith o ddydd i ddydd **£15,100** 5. Cefnogaeth arbenigol i Dîm Rheoli Pobl y Cyngor gyda datblygu ymhellach Polisi Defnydd Mewnol y Cyngor o'r Gymraeg a Strategaeth Gweithlu'r Dyfodol gyda ffocws penodol ar Brentisiaethau a Graddedigion cyfrwng Cymraeg drwy Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gâr **£20,000** 6. Creu cronfa ariannol i rymuso cymunedau blaenoriaeth uchel i ddatblygu prosiectau sy'n ymateb i ganlyniadau Cyfrifiad 2021 - mewn cydweithrediad â'r mentrau iaith leol **£30,000** 7. Datblygiadau tai – astudiaeth i edrych ar batrymau ac effaith ar gymunedau'r sir lle gwelir datblygiadau tai a'r cyswllt pellach mae hyn yn cael ar y gadwyn gwerthu tai pellach o fewn y sir **£12,500**	
5.	**Cofnodion cyfarfod 11 Mawrth 2024** Cytunwyd ei bod yn gofnod cywir. Derbyniodd Cynghorydd Peter Hughes Griffiths y cofnodion ac eiliodd Cynghorydd Carys Jones hyn.	
6.	**Unrhyw fater arall** Ni chodwyd unrhyw faterion pellach.	
7.	**Cyfarfodydd y dyfodol** ▪ *21 Hydref 2024*	